

Cyngor Sir Penfro
Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2017-2033
ARHOLIAD
Pembrokeshire County Council
Revised Local Development Plan 2017-2033
EXAMINATION

Arolygwyr / Inspectors:
Ian Stevens BA (Hons) MCD MRTPI
Paul Selby BEng (Hons) MSc MRTPI

Swyddog Rhaglen / Programme Officer:
Deborah Williamson

ff/t: 01437 775545 e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk

FAO Development Plans Team/Tîm Cynlluniau Datblygu
Pembrokeshire County Council/Cyngor Sir Penfro
County Hall/ Neuadd y Sir
Haverfordwest/Hwlfordd
Pembrokeshire/Sir Benfro
SA61 1TP

16 Chwefror 2026

Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (CDLI) 2: amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2022

Mae wedi dod i'n sylw bod amcanestyniadau newydd o boblogaeth ac aelwydydd wedi'u cyhoeddi gan StatsCymru ar 20 Tachwedd 2025. Mae'r rhain yn disodli'r amcanestyniadau blaenorol sy'n seiliedig ar 2018, y mae'r gofyniad tai a nodwyd yn CDLI 2 yn seiliedig arnynt.

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol ar gael yn:
<https://www.gov.wales/local-authority-household-projections-2022-based> and
<https://stats.gov.wales/en-GB/a2102ed7-52ff-4f58-a7eb-750b06bb8fa8>

Ar adeg ysgrifennu, nid yw'n ymddangos bod amcanestyniadau ar gyfer parciau cenedlaethol wedi dod i law. Serch hynny, o ystyried arwyddocâd amcanestyniadau aelwydydd cyhoeddiedig i strategaeth y cynllun, er mwyn cynorthwyo'r archwiliad gofynnwn i chi adolygu'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2022 a gyhoeddwyd ar gyfer Sir Benfro a chyflwyno papur briffio yn nodi unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer CDLI 2, cyn belled ag y bo'n rhesymol yn absenoldeb unrhyw ffigurau cyhoeddiedig sy'n seiliedig ar 2022 ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Gofynnwn i'r papur hwn gael ei gyflwyno dim hwyrach na 16^{eg} Mawrth 2026.

Cysylltwch â ni drwy'r Swyddog Rhaglen os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn.

Ian Stevens and Paul Selby

Yr Arolygwyr